

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran      Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth



Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
Joshua 1: 1-18



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Joshua 1:9

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i chwilio  
am yr adnod hon.

## Stori I Josua'n dod yn arweinydd newydd

Roedd Moses wedi bod yn arwain pobl Dduw, Israel, ers blynnyddoedd lawer. Nawr, roedd e wedi marw ac roedd angen arweinydd newydd i ddod â'r Israeliaid i wlad yr addewid, Canaan. Dywedodd Duw wrth Josua mai fe fyddai'n arwain y bobl.

**C Beth oedd enw'r hen arweinydd?**


— o — — —

**Beth oedd enw'r arweinydd newydd?**

— o — — —

**Beth oedd enw gwlad yr addewid?**

**C** — — — —



6

Er bod Josua wedi bod yn helpu Moses ers blynnyddoedd, roedd e dipyn bach yn ofnus. Ond cafodd addewid ardderchog gan Dduw.

**C Lliwiwch yr addewid.**


“Wna i ddim o dy  
adael na thro i fy  
nghefn arnat.”

5

Pan fyddwn ni'n trystio Duw ac yn gofyn iddo ein harwain ni, mae Duw yn addo bod gyda ni a pheidio â'n gadael ni.

Yn ogystal â rhoi addewid i Josua, dywedodd Duw wrtho ei bod yn rhaid iddo uffuddhau i Lyfr y Gyfraith.

Roedd y Llyfr hwn yn cynnwys Gorchmynion. Dywedodd Duw wrth Josua ei bod yn rhaid iddo ddarllen y llyfr a meddwl amdano bob bore a phob nos.



### C Llanwch y bylchau.

uffuddhau      Gyfraith      bore      nos

Roedd rhaid i Josua ddarllen Llyfr y \_\_\_\_\_ a meddwl  
amdano bob \_\_\_\_\_ a phob \_\_\_\_\_.

Roedd rhaid iddo \_\_\_\_\_ i'r \_\_\_\_\_ bob amser.

5

Doedd y Beibl cyfan ddim gan Josua fel sydd gennym ni. Ond roedd yn gwybod bod Gair Duw yn bwysig. Mae'r Beibl yn bwysig i ni hefyd gan ei fod yn ein helpu i fyw ein bywydau fel y mae Duw eisiau i ni wneud. Roedd rhaid i Josua groesi afon i gyrraedd Canaan.

### C Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau isod i roi enw'r afon.



4

\_\_\_\_\_      \_\_\_\_\_      \_\_\_\_\_      \_\_\_\_\_      \_\_\_\_\_      \_\_\_\_\_      \_\_\_\_\_

Roedd y bobl i fod i baratoi i groesi'r afon ymhene tri diwrnod. Gwrandawodd pawb ar y neges a gafodd Josua gan Dduw. Roedden nhw'n barod i wrando ar Josua a mynd i ble bynnag roedd e'n ddweud. Ddylen ni wrando ar Air Duw yn y Beibl a bod yn uffud iddo hefyd.

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw \_\_\_\_\_



DARLLENWCH  
Josua 2: 1-24



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Josua 2: 24

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i chwilio  
am yr adnod hon.



## Stori 2 Josua a'r wlad newydd

Anfonodd Josua ddau sbiwr i Ganaan i weld sut wlad oedd hi. Aethon nhw i Jericho ac aros yng nghartref Rahab. Roedd waliau o gwmpas Jericho i gyd ac roedd Rahab yn byw mewn ty ar y wal. Clywodd brenin Jericho fod sbiwyd wedi dod i Jericho ac anfonodd ddynion i dŷ Rahab i chwilio amdanyn nhw. Aeth Rahab â'r dynion i ben y to a'u cuddio o dan blanhigion llin. Dywedodd hi wrth y dynion fod y sbiwyd wedi mynd.



### C Atebwch y cwestiynau hyn yn y Grid Geiriau.

1. Anfonodd Josua ddau \_\_\_\_\_. (5)
2. Rhoddodd \_\_\_\_\_ le iddyn nhw guddio. (5)
3. Lle gawson nhw guddio? (2)
4. Beth oedd enw'r ddinas? (7)
5. Beth oedd o gwmpas y ddinas? (3)



Ar ôl i ddynion y brenin fynd, dywedodd Rahab wrth y sbiwyd bod ofn ar bawb yn Jericho. Roedd hi'n gwybod bod Duw wedi rhoi'r wlad i Israel. Gofynnodd iddynt fod yn garedig wrthi hi am ei bod wedi achub eu bywydau. Addawodd y sbiwyd y byddai hi a'i theulu'n cael eu trin yn dda. Fe wnaethon nhw ddianc trwy ddringo i lawr rhaff o'i ffenest hi.


**C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn GYWIR neu'n ANGHYWIR.**

Dyweddodd y sbiwyr wrth Rahab y byddai hi a'i theulu'n cael eu lladd. ....

Dihangodd y sbiwyr i lawr rhaff o ffenest Rahab. ....

Roedd Rahab yn credu y byddai Duw'n rhoi'r wlad i Israel. ....

Roedd pobl Jericho yn edrych ymlaen at weld yr Israeliaid yn dod. ....



Dyweddodd y sbiwyr wrth Rahab am roi llinyn coch yn ei ffenest a chadw'i theulu i gyd yn y tŷ. Doedd hi ddim i fod i ddweud wrth neb am y cynllun. Yna, byddai'r teulu i gyd yn cael ei achub. Gwnaeth Rahab fel y dywedodd y sbiwyr. Mae hyn yn dangos bod ganddi ffydd yn Nuw a ffydd yn y sbiwyr. Os oes gennym ni ffydd yn Nuw, rydyn ni'n ei gymryd ar ei air.

4

**Daeth y sbiwyr nôl at Josua a dweud:**

“Mae'r Arglwydd  
wedi rhoi'r holl  
wlad yn ein  
dwylo.”  
**Lliwiwch y geiriau.**

6

**Mae Duw bob amser yn cadw'i addewidion! Ydyn ni'n gwneud?**

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw \_\_\_\_\_



DARLLENWCH  
Josua 3: 1-17  
a 4: 1-24




ADNOD  
ALLWEDDOL  
Josua 3: 5

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i chwilio  
am yr adnod hon.

## Stori 3 Josua a'r lorddonen

Ydych chi wedi cael problem erioed a dim syniad sut i'w datrys? Roedd gan Josua broblem fawr. Sut oedd cael yr holl bobl i groesi'r lorddonen? Doedd dim pont ac roedd llif mawr yn yr afon.

Ond roedd yr ateb gan Dduw! Rhoddodd orchymynion i Josua. Roedd yr offeiriad i fod i gario bocs arbennig o'r enw Arch y Cyfamod. Pan fyddai eu traed yn cyffwrdd â'r dŵr, byddai'r afon yn stopio llifo. Yna, byddai holl bobl Israel yn croesi i'r ochr draw tra oedd yr offeiriad yn sefyll yn llonydd.



### C Defnyddiwch y geiriau isod i ateb y cwestiynau.

Duw      offeiriad      lorddonen      yr Arch

1. Beth oedd enw'r afon yr oedden nhw am ei chroesi? \_\_\_\_\_
2. Gan bwy oedd yr ateb i'r broblem? \_\_\_\_\_
3. Pwy oedd i fod i fynd at yr afon gyntaf? \_\_\_\_\_
4. Beth oedd yr offeiriad yn ei gario? \_\_\_\_\_

8


Addawodd Josua i'r bobl:  
“Yfory bydd yr Arglwydd yn

gwneud  
rhyfeddodau

yn eich mysgrif.”

Lliwiwch y geiriau.

4



Cadwodd Duw ei addewid a chafodd holl Israel groesi'r afon ar dir sych. Arhosodd yr offeiriad yn yr afon nes bod pawb wedi croesi. Yna, dywedodd Duw wrth Josua am ddweud wrth yr offeiriad ddod allan o'r afon. Cyn gynted ag y daethant, dechreuodd yr afon lifo eto a gorlifo ei glannau. Roedd yn wyrth fawr arall, fel y wyrth a wnaeth Duw pan adawodd yr Israeliaid yr Aifft a chroesi'r Môr Coch.

### C Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i ateb y cwestiynau.

Beth wnaeth Duw pan adawodd yr Israeliaid yr Aifft? (r y th w g) \_\_\_\_\_

Beth wnaethon nhw ei groesi? (y r m o ch o c) \_\_\_\_\_

4

Dyweddodd Josua wrth y bobl fod yr Arglwydd wedi gwneud y pethau hyn er mwyn i holl bobloedd y ddaear wybod mor gryf yw yr Arglwydd.


### C Defnyddiwch y llythrennau "o" ac "r" i lenwi'r bylchau yn y neges a roddodd Josua i'r bobl.

Gwnaeth y\_ A\_glwydd y\_ pethau\_ hyn e\_ mwyn

i\_ h\_ll\_ b\_b\_l\_edd y\_ ddaea\_ wyb\_d\_ m\_ \_ g\_yf\_ yw y\_ A\_glwydd.

4

Unwaith eto, dangosodd Duw ei nerth. Os byddwn ni'n trystio yn Nuw i fod yn Waredwr i ni, bydd yn dangos bod ganddo nerth i'n helpu ni yn ein bywyd bob dydd.



# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw



DARLLENWCH  
Josua 6: 1-25



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Hebreaid 11: 30

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i chwilio  
am yr adnod hon.

## Stori 4 Josua a Jericho


Roedd ofn byddin yr Israeliaid ar bobl Jericho. Fe wnaethon nhw gau y gatiau a doedd neb yn cael dod i mewn i'r ddinas na mynd allan.

Rhoddodd Duw orchmyntion i Josua. Roedden nhw i fod i fynd o amgylch y ddinas un waith bob dydd am chwe diwrnod. Roedd saith offeiriad a'u hutgyrn i fod i gerdded o flaen Arch y Cyfamod. Dywedodd Josua wrth y bobl am wneud yn union fel y dywedodd Duw wrthynt, er ei bod yn ffordd ryfedd o fynd i frwydr.

**C Rhowch linell o dan yr atebion cywir i'r cwestiynau.**

**Pwy ddywedodd wrth Josua beth i'w wneud?**

y bobl      Moses      Duw




**Pwy oedd i fod i gario'r utgyrn?**

y band      yr offeiriad      y milwyr

6

**Pa ddinas oedden nhw i fod i gerdded o'i chwmpas?**

lloedd oen Jerwsalem Jericho



Roedd y bobl i gyd i fod i orymdeithio y tu ôl iddynt. Roedd yr offeiriad i fod i ganu'r utgyrn ond roedd y bobl i fod yn dawel.

Ar y seithfed diwrnod roedd rhaid iddyn nhw godi'n gynnar a martsho o gwmpas y ddinas saith gwaith.

**C Lliwiwch y rhif i ddweud sawl gwaith y gwnaethon nhw fartsho o gwmpas y ddinas ar y seithfed diwrnod.**

7,

1 ,

6,

2


## C Tynnwch linell o ddechrau'r brawddegau i'r diwedd.

Roedd yr offeiriad i fod yn dawel.

Roedd y bobl i fod i ganu'r utgyrn.

4

Yna, dywedodd Josua wrth y bobl, "Bloeddiwch! Mae'r Arglwydd wedi rhoi'r ddinas i chi. Bydd pawb yn cael eu dinistrio. Dim ond Rahab a'i theulu gaiff eu hachub."



Ar sain yr utgyrn, gwaeddodd y bobl yn uchel a syrthiodd waliau Jericho! Roedd yr Arglwydd wedi rhoi'r ddinas iddynt.

## C Llanwch y bylchau yn y Grid Geiriau.

1. Dywedodd Josua wrth y bobl am \_\_\_\_\_.
2. Dim ond \_\_\_\_\_ a'i theulu a achubwyd.
3. Rhoddodd yr \_\_\_\_\_ y ddinas iddynt.
4. Ar sain yr utgyrn, \_\_\_\_\_ y waliau.

1								
2								
3								
4								

8

Felly, daeth un o frwydrau mawr Israel i ben. Trefnodd Duw i Israel ennill. Mae Duw yn ein helpu ni i ennill pan fyddwn ni'n credu yn lesu Grist ein Gwaredwr. Os nad ydyn ni'n credu yn lesu Grist fel ein Gwaredwr, rydyn ni'n colli ac mae Duw yn ein cosbi.

cyfanswm

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffôn i 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys LL53 6SH ☎ 01766 819120